# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'A'

# 26$^{AIN}$ AWST 2015

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd H.I. Jones [Cadeirydd]**

**Y Cynghorwyr: P.M. Edwards a M.K. Thomas**

Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:- Y Cynghorwyr J.M. Charles a D.E. Williams

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

**Mr R. Edgecombe - Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Mr A. Rees - Swyddog Trwyddedu**

**Mrs M. Evans Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**

**Mr E. Jones - Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9.15 a.m. – 9.20 a.m.;**

**Ymweliad Safle: 9:20 a.m.– 11:35 a.m.;**

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 11:45 a.m. – 1.40 p.m.**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE – CAEAU PARC GLANRANNELL, CRUG-Y-BAR, LLANWRDA, SIR GAERFYRDDIN, SA19 8SA

Gadawodd yr Is-bwyllgor yr ystafell ac ailymgynnull ar safle Caeau Parc Glanrannell, Crug-y-bar, Llanwrda am 10.05 a.m. er mwyn cael golwg ar leoliad y safle mewn perthynas ag eiddo'r gwrthwynebydd. Cafodd yr Is-bwyllgor gyfle i gerdded o gwmpas y caeau a gweld lleoliadau arfaethedig amrywiol elfennau'r digwyddiad. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11.45 a.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan The Big Cwtch Ltd am drwydded safle ar gyfer digwyddiad blynyddol ar Gaeau Parc Glanrannell, Crug-y-bar, Llanwrda, fel a ganlyn: -

Caniatáu:-

| | |
|---|---|
| Cyflenwi Alcohol: | Dydd Sadwrn 11:00-23:30 |
| Adloniant Rheoledig: | Dydd Sadwrn 11:00-23:59 |
| Lluniaeth hwyrnos: | Dydd Sadwrn 23:00-23:59 |

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'A'

## 26^AIN AWST 2015

Oriau Agor: Dydd Sadwrn 10:00 tan ddydd Sul 14:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

- Atodiad A - copi o'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
- Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt;
- Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, a oedd wedi eu diwygio ac yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt;
- Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd, yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt.
- Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Nid oedd yr Awdurdodau Cyfrifol eraill wedi cyflwyno sylwadau ar y cais.

Cytunodd yr holl bartïon i gopïau o'r dogfennau ychwanegol canlynol gael eu dosbarthu i'r Is-bwyllgor:-

- e-bost gan Mr David Drinkall dyddiedig 18 Awst 2015 yn amgáu 2 lythyr gan gymdogion ac e-bost yn rhoi manylion am gytundeb rhwng yr ymgeisydd a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd o ran y 6 amod trwyddedu ychwanegol arfaethedig sydd ynghlwm wrth yr e-bost yn Atodiad 2;
- Cynllun Rheoli Digwyddiad;
- rhestr o sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd ynghylch y Cynllun Rheoli Digwyddiad.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad gan ddweud nad oedd y geiriad yn y drefn weithredu'n ddigon manwl gywir i'w alluogi i lunio amodau trwydded gorfodadwy clir yn unol ag Adran 18(2)(a) o'r Ddeddf Trwyddedu. Credai, petai'r cais yn cael ei ganiatáu, y byddai'n briodol cynnwys amodau 1-8 yn lle'r datganiadau yn y drefn weithredu, yn unol â chais yr heddlu. Dywedodd wrth yr Is-bwyllgor ei fod wedi cydgysylltu â chydweithwyr yng Ngwasanaethau Iechyd y Cyhoedd i baratoi cyfres o amodau a nodwyd yn Atodiad 2, ac a ddosbarthwyd yn gynharach.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Gyda hynny cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan un oedd a wnelo â'r mater ac a oedd yn gwrthwynebu caniatáu'r drwydded safle am y rhesymau canlynol:-

- nid oedd dim ymgynghori cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal am y tro cyntaf y llynedd;
- nid yw'n ddigwyddiad undydd gan fod angen llawer o ddiwrnodau i baratoi sy'n tarfu ar ei gartref a'i fythynnod gwyliau;
- mae'r digwyddiad yn gallu amharu arno o ran mwynhau ei eiddo mewn heddwch;

- yn ystod y digwyddiad y llynedd daeth tresmaswyr ar ei dir ddwywaith.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Wedyn bu i'r ymgeiswyr ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd gan ddweud y canlynol:-

- diben y digwyddiad oedd codi arian at sgïo addasol a chynyddu ymwybyddiaeth ohono o ran helpu pobl i oresgyn problemau niwrolegol ac mae'r digwyddiad yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth ddi-dâl gwirfoddolwyr a busnesau lleol;
- mae ganddynt statws elusennol bellach a gofynnwyd iddynt ymgysylltu â Chwaraeon Anabledd Cymru;
- Mae Mr Drinkall yn gyn-Swyddog yn y Fyddin ac mae ganddo brofiad sylweddol o reoli; mae'n dal trwydded bersonol ac ef yw Goruchwylydd Dynodedig arfaethedig y Safle ar gyfer y drwydded safle;
- mae'r Cynllun Rheoli Digwyddiad yn nodi'n fanwl sut maent yn bwriadu hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- bydd staff diogelwch SIA yn cael eu defnyddio yn ogystal â gwirfoddolwyr;
- nid oedd unrhyw faterion o ran troseddau ac anhrefn yn y digwyddiad y llynedd;
- mae asesiad risg ac asesiad risg tân llawn wedi cael eu cynnal;
- defnyddir stiwardiaid traffig a bydd cerbydau'n symud cyn lleied â phosibl yn y man trwyddedig;
- bydd yr holl isadeiledd yn cael ei osod, ei weithredu a'i waredu gan gontractwyr cymwys;
- bydd Ambiwlans Sant Ioan ar y safle;
- mae cynllun y safle a'r oriau gweithredu wedi cael eu llunio i gael cyn lleied o effaith â phosibl ar dai eraill;
- bydd arwyddion yn cael eu gosod i geisio atal unrhyw dresmasu;
- bydd man pwrpasol i deuluoedd lle y bydd alcohol ac ysmygu'n cael eu gwahardd;
- mae'r materion a godwyd gan y gwrthwynebydd wedi cael eu hystyried wrth gynllunio'r digwyddiad eleni - bydd llawer mwy o wirfoddolwyr i helpu i blismona'r digwyddiad, ni fydd mannau ger eiddo'r gwrthwynebydd a ddefnyddiwyd y llynedd yn cael eu defnyddio eleni er mwyn creu clustogfa, cerddoriaeth acwstig fydd hi yn bennaf a bydd y perfformiadau mwy swnllyd ar y llwyfan pellaf, mae'r maes parcio wedi'i symud er mwyn darparu mynedfa ac allanfa ar wahân ac felly ni fydd y dramwyfa a rennir yn cael ei defnyddio ar gyfer mynediad cyhoeddus ac mae'r tŵr goleuadau a'r generadur wedi eu symud i ben pellaf y safle;

- bydd ffôn llinell dir yn cael ei osod yn y swyddfa docynnau a bydd y rhif ffôn yn cael ei ddosbarthu i'r holl gymdogion fel y gallant gysylltu â'r ymgeiswyr os bydd problem.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Ar hynny

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded yr oedd yr ymgeisydd a'r Awdurdodau Cyfrifol wedi cytuno arnynt.**

**Y RHESYMAU:-**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Roedd y digwyddiad wedi cael ei gynnal o'r blaen o dan Hysbysiadau am Ddigwyddiad Dros Dro;
2. Nid oedd dim un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu trwydded mewn egwyddor;
3. Roedd yr Awdurdodau Cyfrifol yn fodlon y gellid cynnal y digwyddiad heb danseilio'r amcanion trwyddedu petai amodau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y drwydded;
4. Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau hynny gael eu hychwanegu at y drwydded;
5. Bu tarfu ar dir ac ar fywyd personol Mr Clifford pan gynhaliwyd y digwyddiad yn 2014.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu, yr Awdurdod Trwyddedu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried effaith y cais ar bob un o'r amcanion trwyddedu yn ei dro:-

<u>Atal Troseddau ac Anhrefn</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio'r amcan hwn.

<u>Atal Niwsans Cyhoeddus</u>

Cydnabu'r Is-bwyllgor fod dau breswylydd lleol wedi cwyno am darfu yn sgil y digwyddiad y llynedd a bod hyn wedi achosi niwsans i'r cartrefi hynny. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd effeithiwyd ar ddau gartref yn unig ac roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd hynny'n ddigonol i fod yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus, er y gallai fod wedi bod yn gyfystyr â niwsans preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr ymgeiswyr wedi gwneud newidiadau i'r digwyddiad eleni i leddfu'r problemau a ddigwyddodd y llynedd a bod Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn fodlon ar y trefniadau a oedd wedi eu cynnig.

Felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar ôl cloriannu'r hyn oedd yn debygol, nad oedd y digwyddiad yn debygol o achosi niwsans cyhoeddus (h.y. un sy'n effeithio ar ddosbarth o ddeiliaid Ei Mawrhydi) ac felly na fyddai'n tanseilio'r amcan hwn.

Yn ogystal nododd yr Is-bwyllgor fod gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd bwerau eisoes i ymdrin ag unrhyw niwsans statudol (gan gynnwys niwsans preifat) a allai godi.

Diogelu'r Cyhoedd

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio'r amcan hwn.

Amddiffyn Plant rhag Niwed

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio'r amcan hwn.

Casgliad

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar ôl cloriannu'r hyn oedd yn debygol, na fyddai caniatáu'r drwydded, yn amodol ar yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt, yn tanseilio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Yn ogystal roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr amodau ychwanegol hynny'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion hynny a'u bod yn ymateb cymesur i'r materion a oedd wedi eu nodi.

**LLOFNODWYD: ……………………………………….**

**Y DYDDIAD: …………………………………………..**